



General
Osteopathic
Council

Adroddiad Blynyddol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol i Gomisiynydd y Gymraeg

Ebrill 2024 – Mawrth 2025

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ynglŷn â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.....	4
Ein gweithgareddau cydymffurfio	5
Rhagor o wybodaeth am ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg	7
Sut i gysylltu â ni yn Gymraeg.....	7

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn esbonio sut mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi ceisio cydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

Rydym wedi ymrwymo i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan gydnabod arwyddocâd a hanes yr iaith a gwneud ein gorau glas lle bo hynny'n bosibl i hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar draws ein gwasanaethau.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau rydym wedi'u cyflawni i hwyluso defnydd o'r Gymraeg nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn parhau i fabwysiadu dull cymesur o gydymffurfio â'r safonau, sy'n cyd-fynd â maint a chyrhaeddiad ein sefydliad, yn ogystal â nifer yr osteopathiaid a'r myfyrwyr sy'n byw, yn astudio ac yn ymarfer yng Nghymru ar hyn o bryd.

Lle bynnag y bo modd, rydym yn edrych ar ffyrdd y gallwn wella ein gwasanaethau Cymraeg i ddiwallu anghenion osteopathiaid, cleifion, myfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn trwy ein hasesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ac fel rhan o'n gweithgarwch cynllunio ac ymgysylltu cyn ymgynghori, gan gysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru lle bo'n bosibl ac yn berthnasol. Mae darparu gwasanaethau Cymraeg yn rhan o'n gweledigaeth i fod yn rheoleiddiwr cynhwysol y mae pawb yn ymddiried ynddo.

Rydym yn parhau i annog adborth gan siaradwyr Cymraeg ar y gwasanaethau a'r wybodaeth a ddarparwn yn Gymraeg. Bydd unrhyw adborth a dderbyniwn yn cael ei ddefnyddio i lywio sut rydym yn darparu ein gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'r safonau yn y dyfodol. Os ydych chi'n siaradwr Cymraeg ac am gysylltu â ni yn Gymraeg, mae croeso i chi anfon e-bost atom yn: council@osteopathy.org.uk

Ynglŷn â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr ar gyfer osteopathi yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Rhaid i osteopathiaid fod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol i ymarfer osteopathi yn gyfreithlon yn y DU.

Ein nod cyffredinol yw diogelu'r cyhoedd, cynnal hyder y cyhoedd mewn osteopathi a hyrwyddo safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer osteopathiaid.

Mae ein cyfrifoldebau yn cynnwys:

- cadw Cofrestr o'r holl osteopathiaid sydd â chaniatâd i ymarfer
- gweithio gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn osteopathig i hyrwyddo diogelwch cleifion trwy gofrestru gweithwyr proffesiynol cymwysedig a gosod, cynnal a datblygu safonau ymarfer ac ymddygiad osteopathig
- helpu cleifion sydd â phryderon am osteopath, a thynnu o'r Gofrestr unrhyw osteopathiaid sy'n anaddas i ymarfer
- sicrhau ansawdd addysg osteopathig
- gosod y gofynion ar gyfer osteopathiaid mewn perthynas â'u datblygiad proffesiynol parhaus

Ar 31 Mawrth 2024, mae 164 o osteopathiaid yn byw a/neu'n ymarfer yng Nghymru, a 138 o fyfyrwyr yn astudio a/neu'n byw yng Nghymru. Prifysgol Abertawe yw'r unig ddarparwr addysg osteopathig yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn sefydliad bach gyda llai na 30 aelod o staff ac mae ein swyddfa wedi'i lleoli yn Llundain, Lloegr. Rydym yn cael ein llywodraethu gan ein Cyngor sydd â gofyniad statudol i gynnwys o leiaf un aelod o Gymru (person sydd wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a allai fod yn aelod lleig neu'n osteopath) i'n helpu i ystyried a chefnogi anghenion osteopathiaid, cleifion ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio strategol.

Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg.

Ein gweithgareddau cydymffurfio

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 canolbwyntiodd ein gweithgareddau cydymffurfio ar y meysydd canlynol:

- Ymgynghoriadau
- Gohebiaeth
- Hyrwyddo ein gwasanaethau
- Darparu gwybodaeth ar ein gwefan yn Gymraeg

Ni chawsom unrhyw geisiadau gan unigolion sy'n siarad Cymraeg i hwyluso gwrandawiadau yn Gymraeg, nac i ddarparu gohebiaeth na gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn Gymraeg. Er ein bod yn hyrwyddo'r gwasanaethau hyn fel rhan o'n gohebiaeth ag unigolion yn yr amgylchiadau hyn, mae'r nifer gymharol isel o osteopathiaid yng Nghymru yn awgrymu tebygolrwydd isel y byddai angen i aelodau'r gofrestr neu gleifion sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Ymgynghoriadau

Yn ystod y cyfnod hwn, cawsom ganllawiau gan Gomisiynydd y Gymraeg ar safonau 45-47 yn esbonio'r angen i ddangos ymdrech fwriadol, lle bo hynny'n bosibl, wrth geisio barn ar effaith ein penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i siarad Cymraeg, fel rhan o'n hymgynghoriadau. Esboniodd y Comisiynydd yr angen i ddangos, fel rhan o'n dogfen ymgynghori, sut rydym wedi asesu'r effaith ar gyfleoedd i siarad Cymraeg a chanlyniad ein hasesiad, gan gynnwys unrhyw newidiadau a awgrymir i'n dull gweithredu.

Dyma'r dull a ddefnyddiwyd gennym ym mhob ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn, a oedd yn cynnwys ymgynghoriad ar ein canllawiau iechyd ac anabledd i fyfyrwyr, ac ymgynghoriad ar ein canllawiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a'n templed ar gyfer Adolygiad Trafodaeth Cymheiriaid – templed y mae'n ofynnol i osteopathiaid ei ddefnyddio i hwyluso sgwrs â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall. Rhaid storio'r templed wedi'i gwblhau fel rhan o gofnodion DPP osteopath.

Pan wnaethom gwblhau ein hasesiad effaith wrth baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad ar ein canllawiau DPP a'n templed Adolygiad Trafodaeth Cymheiriaid, sylweddolom nad oeddem yn darparu'r templed yn Gymraeg ar hyn o bryd, ac y byddai gwneud hynny'n cefnogi osteopathiaid sy'n siarad Cymraeg i gynnal eu sgwrs â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n defnyddio'r Gymraeg. Roedd hwn yn gam gweithredu clir a awgrymwyd gennym fel rhan o ganlyniad ein hymgynghoriad i gynyddu neu wella cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Disgwylir i'r canllawiau a'r templedi diwygiedig gael eu cyhoeddi cyn diwedd 2025, yn amodol ar gymeradwyaeth ein Cyngor.

Gohebiaeth

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddarparu gohebiaeth yn Gymraeg i'r rhai sy'n gweithredu yn eu rhinwedd fel trigolion Cymru, gan gynnwys myfyrwyr osteopathi. I gydymffurfio, gwnaethom anfon pob un o'r pedwar rhifyn o'n

e-fwletin chwarterol i fyfyrwyr yn ystod y cyfnod hwn yn Gymraeg a Saesneg at fyfyrwyr sydd naill ai'n astudio neu'n byw yng Nghymru (Prifysgol Abertawe).

Yn ystod y cyfnod hwn fe wnaethom hefyd lansio WhatsApp fel dull ar gyfer derbyn cyfathrebiadau gan osteopathiaid a myfyrwyr. Fel rhan o'n gwaith hyrwyddo ar gyfer y gwasanaeth hwn, fe wnaethom nodi y bydd negeseuon a dderbynnir yn Gymraeg, boed yn negeseuon testun neu negeseuon llais, yn derbyn ymatebion testun yn Gymraeg. Mae hyn oherwydd nad oes gennym aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i ymateb gyda negeseuon llais, ac oni bai bod unigolyn yn anfon neges atom yn nodi ei fod yn siarad Cymraeg neu'n byw yng Nghymru, ni fyddem yn gallu pennu a yw'n byw yng Nghymru. Ein hymateb cymesur felly oedd bod yn glir ein bod yn gwahodd ac yn hwyluso gohebiaeth yn Gymraeg, heb ddarparu hyn yn awtomatig i bawb.

Ni chawsom unrhyw ohebiaeth (negeseuon e-bost, galwadau ffôn, llythyrau na negeseuon WhatsApp) yn Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn.

Hyrwyddo ein gwasanaethau

Er mwyn hyrwyddo ein gwasanaethau mewn ffordd gyson, rydym yn cynnwys nodwedd ddwyieithog ym mhob e-fwletin misol aelodau'n cofrestr sy'n hyrwyddo un o'n gwasanaethau Cymraeg. Gan fod ymgysylltiad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn llawer is, rydym yn hyrwyddo ein gwasanaethau yn Gymraeg yn llai rheolaidd (bob tri mis ar gyfartaledd), a'n nod yw cynyddu hyn yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg yn ein llofnodion e-bost (gan wahodd gohebiaeth yn Gymraeg yn benodol), yn ein cyflwyniadau ar-lein i fyfyrwyr yn eu blwyddyn olaf, ac ar ein gwefan.

Darparu gwybodaeth ar ein gwefan yn Gymraeg

Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol yn Gymraeg ar ein gwefan:

- [Adroddiad Blynyddol Addasrwydd i Ymarfer](#)
- [Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol](#)
- [Adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg](#)
- [Canllawiau ar Ymddygiad Proffesiynol ac Addasrwydd i Ymarfer Myfyrwyr](#)
- [Fframwaith Tegwch, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn](#)
- [Ein Strategaeth](#)

Rydym hefyd yn diweddaru'r wybodaeth ar adran Cymraeg ein gwefan yn rheolaidd i adlewyrchu diweddariadau ar ein tudalennau Saesneg. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am [Aelodau ein Cyngor a'n Pwyllgorau](#), [ymchwil gan y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig](#) a'n [proses pryderon](#).

Rhagor o wybodaeth am ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

Nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor Osteopathig Cyffredinol â'r safonau:	Dim
Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2025:	Dim
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (ac eithrio swyddi llywodraethu/anweithredol) lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol:	Dim
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (ac eithrio swyddi llywodraethu/anweithredol) lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol:	Dim
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (ac eithrio swyddi llywodraethu/anweithredol) lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol lle'r oedd angen dysgu sgiliau Cymraeg:	Dim
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (ac eithrio swyddi llywodraethu/anweithredol) lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol:	Dim
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (ac eithrio swyddi llywodraethu/anweithredol) lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol:	7

Sut i gysylltu â ni yn Gymraeg

Gellir anfon ymholiadau yn Gymraeg at y Cyngor Osteopathig Cyffredinol drwy e-bost, WhatsApp neu drwy'r post a byddant yn derbyn ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg. Bydd ymholiadau a anfonir atom drwy unrhyw un o'n sianeli cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter/X neu LinkedIn) hefyd yn derbyn ymateb yn Gymraeg. Fel arfer, ein nod yw ymateb i negeseuon e-bost a chyswllt trwy gyfryngau cymdeithasol o fewn 5 diwrnod gwaith. Ar WhatsApp, ein nod yw ymateb o fewn 24 awr.

Gan nad oes gennym aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu ateb galwadau ffôn yn Gymraeg.

Os hoffech gysylltu â ni ynglŷn â'n gwasanaethau Cymraeg neu gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, gallwch wneud hynny drwy e-bostio info@osteopathy.org.uk.